# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 13 Hydref 1999

Mae [R] yn dangos bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol

### Awdurdod Rheilffyrdd Strategol (Aelodaeth)

**C7 Jenny Randerson:** Pa drafodaethau y mae Peter Law wedi eu cynnal gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ynglŷn ag aelodaeth yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol? (OAQ1406VB)

**Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol (Peter Law):** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau ers i'r Dirprwy Brif Weinidog gytuno y byddai un cynrychiolydd o Gymru yn cael ei benodi i'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol. Ymgynghorir â mi ynghylch y penodiad hwnnw.

### Ffordd Liniaru ar gyfer yr M4 (Casnewydd)

**C8 William Graham:** A oes gan Peter Law ddyddiad ar gyfer dechrau ar y gwaith o adeiladu ffordd liniaru ar gyfer yr M4, i'r de o Gasnewydd? (OAQ1385VB)

**Peter Law:** Gwneir penderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen ai peidio â'r cynllun hwn ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r astudiaeth fframwaith gwerthuso cyffredin o'r opsiynau i ddelio â'r tagfeydd a ragwelir ar y draffordd yng Nghasnewydd. Gobeithiaf fod mewn sefyllfa i wneud cyhoeddiad cyn diwedd y flwyddyn.

### Sefydlu Cynghorau Cymuned

**C9 Brian Hancock:** Pa gamau fydd Peter Law yn eu cymryd er mwyn ei gwneud yn haws i sefydlu cynghorau cymuned mewn ardaloedd lle nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd? (OAQ1419VB)

**Peter Law:** Er mwyn newid y drefn gyfredol i sefydlu cynghorau cymuned byddai'n rhaid sefydlu deddfwriaeth sylfaenol. Nid oes gennyf gynlluniau i geisio sicrhau newid o'r fath.

### Y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (Effeithiau ar Drafnidiaeth Gyhoeddus)

**C10 Mick Bates:** Sut y bydd y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yn effeithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru a phwy fydd yn ariannu'r newidiadau angenrheidiol? (OAQ1404VB)

**Peter Law:** Bydd y rheoliadau dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yn ei gwneud hi'n ofynnol i fysiau, bysiau preifat, trenau a thacsis yng Nghymru sicrhau mynediad ar gyfer pobl ag anableddau. Mae'r gofyniad yn berthnasol i gerbydau newydd yn unig (a thacsis a drwyddedir o'r newydd), ac mae hyn, felly, yn taenu'r gost i'r diwydiant. Daeth y rheoliadau sy'n effeithio ar gerbydau rheilffyrdd newydd i rym ar 1 Tachwedd 1998. Mae ymgynghoriad ynghylch y rheoliadau eisoes ar droed a bydd yn berthnasol i fysiau; ymgynghorir ynghylch y rheini sy'n ymwneud â thacsis tua diwedd y flwyddyn.

### Datblygu Adnoddau Ynni Cynaliadwy

**C11 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff Peter Law ddatganiad ar rôl Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd o ran hybu datblygiad adnoddau ynni cynaliadwy? (OAQ1413VB)

**Peter Law:** Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn croesawu'r defnydd o ffynonellau ynni cynaliadwy fel un elfen o bolisi egni cyflawn sy'n sensitif i'r amgylchedd, yn amodol ar asesiad amgylcheddol o gynlluniau unigol, a monitro effaith hirdymor y technolegau amrywiol o dan sylw.

Yn ddiweddar mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi diweddaru ei bolisi ar dyrbinau gwynt. Mae'n cefnogi datblygu ffermydd gwynt sydd wedi eu cynllunio a'u tirlunio'n dda, ond mae'n gwrthwynebu datblygu tyrbinau gwynt mewn parciau cenedlaethol, ardaloedd o harddwch naturiol arbennig, arfordiroedd treftadaeth a safleoedd sydd â dynodiad bywyd gwyllt rhyngwladol neu genedlaethol pan fyddai'r datblygiad hwnnw'n effeithio'n andwyol ar y nodweddion hynny a arweiniodd at ddynodi'r safle.

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn ymchwilio i amrywiaeth o ffyrdd o hyrwyddo egni adnewyddadwy mewn modd sy'n sensitif i'r amgylchedd.

Ar y cyfan, rôl reoliadol sydd gan Asiantaeth yr Amgylchedd, a'r nod yw rheoli effaith amgylcheddol y cyfleusterau unigol yn hytrach na phennu polisi egni cyffredinol. Nid oes ganddi'r grym i fynnu bod cwmnïau yn defnyddio mathau penodol o danwydd, ond bydd y Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd yn rhoi grymoedd ychwanegol i Asiantaeth yr Amgylchedd er mwyn gwella effeithlonrwydd egni y cyfleusterau a reoleiddir ganddi.

Hefyd mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd ddyletswyddau statudol eang mewn perthynas â chynaladwyedd a chadwraeth ac felly mae ganddi rôl i'w chwarae o ran hyrwyddo datblygiad adnoddau ynni cynaliadwy. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn bwriadu cydweithio ag eraill i ymchwilio i effaith ffynonellau ynni cynaliadwy megis egni gwynt ar y tir ac ar y môr, cynhyrchu tanwyddau heblaw tanwyddau ffosil ar gyfer trafnidiaeth, egni o losgi gwastraff, egni o nwyon tirlenwi, cynhyrchu trydan-dŵr, egni'r llanw, egni'r tonnau, a chelloedd solar.

### Datblygu Adnoddau Ynni Cynaliadwy

**C12 Cynog Dafis:** A wnaiff Peter Law ddatganiad ar rôl Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd o ran hybu datblygiad adnoddau ynni cynaliadwy? (OAQ1389VB)

**Peter Law:** Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn croesawu'r defnydd o ffynonellau ynni cynaliadwy fel un elfen o bolisi egni cyflawn sy'n sensitif i'r amgylchedd, yn amodol ar asesiad amgylcheddol o gynlluniau unigol, a monitro effaith hirdymor y technolegau amrywiol o dan sylw.

Yn ddiweddar mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi diweddaru ei bolisi ar dyrbinau gwynt. Mae'n cefnogi datblygu ffermydd gwynt sydd wedi eu cynllunio a'u tirlunio'n dda; ond mae'n gwrthwynebu datblygu tyrbinau gwynt mewn parciau cenedlaethol, ardaloedd o harddwch naturiol arbennig, arfordiroedd treftadaeth a safleoedd sydd â dynodiad bywyd gwyllt rhyngwladol neu genedlaethol pan fyddai'r datblygiad hwnnw'n effeithio'n andwyol ar y nodweddion hynny a arweiniodd at ddynodi'r safle.

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn ymchwilio i amrywiaeth o ffyrdd o hyrwyddo egni adnewyddadwy mewn modd sy'n sensitif i'r amgylchedd.

Ar y cyfan, rôl reoliadol sydd gan Asiantaeth yr Amgylchedd, a'r nod yw rheoli effaith amgylcheddol y cyfleusterau unigol yn hytrach na phennu polisi egni cyffredinol. Nid oes ganddi'r grym i fynnu bod cwmnïau yn defnyddio mathau penodol o danwydd, ond bydd y Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd yn rhoi grymoedd ychwanegol i Asiantaeth yr Amgylchedd er mwyn gwella effeithlonrwydd egni y cyfleusterau a reoleiddir ganddi.

Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd ddyletswyddau statudol eang mewn perthynas â chynaladwyedd a chadwraeth ac felly mae ganddi rôl i'w chwarae o ran hyrwyddo datblygiad adnoddau ynni cynaliadwy. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn bwriadu cydweithio ag eraill i ymchwilio i effaith ffynonellau ynni cynaliadwy megis egni gwynt ar y tir ac ar y môr, cynhyrchu tanwyddau heblaw

tanwyddau ffosil ar gyfer trafnidiaeth, egni o losgi gwastraff, egni o nwyon tirlenwi, cynhyrchu trydan-dŵr, egni'r llanw, egni'r tonnau, a chelloedd solar.

### Awdurdodau Lleol (sydd wedi Etifeddu Diffygion Ariannol)

**C13 Geraint Davies:** A fyddai Peter Law yn ystyried rhoi cymorth ariannol arbennig i awdurdodau lleol sydd wedi etifeddu diffygion ariannol? (OAQ1403VB) [R]

**Peter Law:** Disgwylir i bob awdurdod reoli ei faterion yn ddoeth ac ymdopi gyda chanlyniadau penderfyniadau'r awdurdod hyd yn oed os mai gweinyddiaeth wahanol neu gyn-gyngor a wnaeth y penderfyniadau hynny. Ni ellid ond rhoi cymorth ariannol i un awdurdod ar draul awdurdodau eraill, neu drwy leihau gwariant arall y Cynulliad.

### Dyrannu Contractau Amgylcheddol

**C14 Owen John Thomas:** Yn unol â'r penderfyniad sydd ar fin digwydd i ganiatáu i Gyngor Sir Caerdydd, yn hytrach na Thames Water, weinyddu a chynnal morglawdd a llyn dŵr croyw Bae Caerdydd, beth fydd Peter Law yn ei wneud i sicrhau bod pob contract amgylcheddol sylweddol yn cael ei roi i gwmnïau ac awdurdodau sydd wedi eu lleoli yng Nghymru? (OAQ1411VB)

**Peter Law:** Ni wnaed unrhyw benderfyniad eto ynghylch y contract i reoli'r morglawdd a'r llyn. Byddwn yn mynd yn groes i Reoliadau Caffaeliad Cyhoeddus Ewrop pe bawn yn ceisio sicrhau bod contractau amgylcheddol sylweddol yn cael eu dyfarnu i gwmnïau sydd wedi eu lleoli yng Nghymru.

### Pwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol (Arian Cyfatebol Amcan 1)

**C15 Phil Williams:** Pa gyfraniad y mae Peter Law yn ei ragweld a fydd yn dod o bob un o benawdau cyllideb Pwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol er mwyn darparu arian cyfatebol ar gyfer rhaglen Amcan 1 yn ystod y flwyddyn ariannol 2000-2001? (OAQ1407VB)

**Peter Law:** Mae arian cyfatebol yn fater i'r sefydliadau nawdd ac mae arian cyfatebol ar gyfer y rhaglenni Ewropeaidd cyfredol eisoes wedi ei gynnwys yng ngwaelodlin y sefydliadau perthnasol. Byddwn yn ystyried y gofynion o safbwynt arian cyfatebol ar gyfer 2000-01 fel rhan o gylch y gyllideb.

### Dyraniad y Gyllideb ar gyfer Cymdeithasau Tai

**C16 William Graham:** A wnaiff Peter Law ystyried clustnodi'n benodol o fewn y grant cynnal ar gyfer awdurdodau lleol ddyraniad y gyllideb ar gyfer cymdeithasau tai? (OAQ1386VB)

**Peter Law:** Telir grantiau tai cymdeithasol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o gyllideb ar wahân a weinyddir gan swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Nid oes dyraniad o'r gyllideb ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig oddi mewn i'r adnoddau sydd ar gael i awdurdodau lleol.

### Ffordd Liniaru Rhondda Fach Isaf a Ffordd Osgoi Gelli a Threorci

**C17 Geraint Davies:** Pa gynlluniau sydd gan Peter Law i roi cymorth ariannol ar gyfer ffordd liniaru Rhondda Fach Isaf a ffordd osgoi Gelli a Threorci? (OAQ1398VB)

**Peter Law:** Yn ddiweddar, cyflwynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, fel yr awdurdod priffyrdd lleol, geisiadau grant trafnidiaeth ar gyfer 2000-01 am gefnogaeth costau paratoi i'r ddau brosiect. Mae'r holl geisiadau wrthi'n cael eu hystyried a gobeithiaf wneud cyhoeddiad am y setliad tua dechrau'r flwyddyn.

### Pont Reilffordd Cwm-bach

**C18 Nick Bourne**: Pa gynlluniau sydd gan Peter Law i ddelio â'r perygl a ddaeth yn sgîl pont reilffordd

Cwm-bach ar gefnffordd yr A470? (OAQ1373VB)

**Peter Law:** Mae Cyfarwyddiaeth Priffyrdd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrthi'n llunio cynllun i osgoi'r bont drwy ailosod yr A470 rhwng Cwm-bach a'r Bontnewydd ar Wysg; ar hyn o bryd mae'r cynllun yn y cam gwerthuso technegol. Oherwydd y cofnodion damweiniau a chyfluniad y bont, sy'n llawer is na'r safon, rhoddir blaenoriaeth uchel i'r cynllun wrth ffurfio rhaglenni gwaith y Gyfarwyddiaeth i'r dyfodol.

Yn y cyfamser, mae Railtrack wedi cytuno i roi arwyddion ychwanegol ger y bont a phaentio'r parapetau a'r ffasgiâu dec gyda llinellau onglog amlwg.

## Etholiadau Lleol yng Nghymru (Cynrychiolaeth Gyfrannol)

**C19 Michael German:** A yw Peter Law wedi trafod o gwbl â'r Ysgrifennydd Cartref y posibilrwydd o gyflwyno system o gynrychiolaeth gyfrannol ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru? (OAQ1401VB)

**Peter Law:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Cartref ynghylch y mater hwn.

## Twnnel Penmaen-mawr (Diogelwch)

**C20 Gareth Jones:** A all Peter Law gadarnhau bod twnnel Penmaen-mawr yn berffaith ddiogel ar gyfer teithwyr, er gwaethaf y craciau niferus yn y waliau? (OAQ1397VB)

**Peter Law:** Mae yna dwnnel ar yr A55 ger Penmaen-mawr ond nid oes craciau niferus i'w gweld ynddo. Yr wyf yn tybied bod yr Aelod yn cyfeirio at dwnnel Penmaen-bach, ger Conwy, lle mae craciau niferus i'w gweld yn leinin y twnnel.

Nid yw'n ofynnol i leinin concrid twnnel Penmaen-bach gynnal y graig uwch ei ben gan fod y graig yn cynnal ei hun. Gosodwyd y leinin er mwyn cael wyneb llyfn i helpu gyda'r goleuadau a'r awyru. Daeth y craciau i'r amlwg gan fod y leinin concrid wedi crebachu mwy nag a ddisgwylid adeg ei adeiladu; ond mae'r craciau hyn yn cael eu hamlygu gan fod baw o'r traffig yn glynu wrth y dafnau bach o ddŵr sy'n pasio drwy'r craciau gan ddirywio'r gorchudd paent adlewyrchol ar leinin ymylon y craciau.

Mae achosion cyffredinol ac oblygiadau'r craciau yn y twnnel hwn, ynghyd â'r rheini sydd i'w gweld yn nhwnnel Saltash, ger Plymouth yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd mewn astudiaeth fanwl ar ran Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau sy'n gyfrifol am y manylion cenedlaethol ynghylch adeiladu twneli. Yn sgîl canlyniadau'r astudiaeth hon, a gwblheir erbyn diwedd y flwyddyn, gellir addasu'r manylion hyn i leihau'r perygl fod problemau tebyg yn ymddangos mewn twneli a adeiladir i'r dyfodol. Ceir hefyd gyngor am y camau adferol mwyaf addas ar gyfer y twneli presennol.

Mae'r twnnel yn cael ei archwilio'n rheolaidd i fonitro'r craciau a chredir ei fod yn ddiogel ar gyfer defnyddwyr y ffordd.

## Claddu Mamogiaid (Perygl i'r Amgylchedd)

**C21 Peter Rogers:** Pe bai ffermwyr yn claddu nifer mawr o famogiaid ar eu tir, a fyddai hynny'n cael ei ystyried yn berygl i'r amgylchedd? (OAQ1402VB) [R]

**Peter Law:** Y ffordd fwyaf effeithlon o waredu stoc marw yw drwy naceriaid ac ierdydd hela. Nid yw'n dderbyniol eu claddu oni bai fod hynny ar fferm neu leoliad arall y mae'n anodd cyrraedd ato, neu os nad yw swmp a sylwedd y sgîl-gynnyrch a'r pellter i'r fferm lle byddai'r stoc, fel arall, yn cael eu gwaredu, yn cyfiawnhau eu cludo ymaith. Os oes rhaid claddu stoc ar fferm rhaid gwneud hynny yn unol â'r Cod Dŵr a chael caniatâd yr awdurdod lleol a chytundeb Asiantaeth yr Amgylchedd fod y safle yn addas. Mae gwaredu stoc ar raddfa fawr, fodd bynnag, yn fwy tebygol o beri problemau amgylcheddol.

**Awdurdodau Lleol (Cymorth â'u Prosesau Gwneud Penderfyniadau)**

**C22 Peter Black:** Pa ganllawiau y mae Peter Law yn eu cynnig i awdurdodau lleol er mwyn eu cynorthwyo i ailstrwythuro eu prosesau gwneud penderfyniadau, cyn i ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei phasio? (OAQ1391VB)

**Peter Law:** Mae awdurdodau lleol wedi gweld y cynigion yn y Mesur Llywodraeth Leol (Trefniadaeth a Safonau) drafft a phapur ymgynghorol y Swyddfa Gymreig 'Llais Cryfach i Bobl Leol'. Byddwn yn disgwyl iddynt weithio yn unol â'r trefniadau a ddisgrifir yn y dogfennau hyn, a chefnogaf yr ymdrechion y mae sawl cyngor yn eu gwneud i'r perwyl hwn. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar strwythurau rheoli, a chroesawaf hyn. Hyd nes daw unrhyw ddeddfwriaeth newydd i rym, bydd y ddarpariaeth a'r canllawiau presennol yn berthnasol.

**Prosiectau Seilwaith (Arian Amcan 1)**

**C23 Nick Bourne:** Pa brosiectau seilwaith sylweddol ar gyfer Cymru y mae Peter Law yn gobeithio y gellir eu hariannu ag arian Amcan 1? (OAQ1372VB)

**Peter Law:** Yr wyf yn gobeithio y bydd arian Amcan 1 ar gael i gefnogi amrywiaeth o brosiectau seilwaith. Mae'r SPD drafft yn tynnu sylw at wella'r rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd, prosiectau ynni glân a thelathrebu sylweddol a chynlluniau i wella'r amgylchedd. Bydd rhaid i brosiectau unigol ddangos eu bod yn cyfrannu at ddatblygu'r economi a'u bod yn gyson â pholisïau datblygu cynaliadwy'r Cynulliad.

**System Garthffosiaeth Penmaen-mawr**

**C24 Gareth Jones:** Pa sicrwydd all Peter Law ei roi i drigolion Penmaen-mawr fod penderfyniad wedi ei wneud i wella system garthffosiaeth annigonol y dref? (OAQ1396VB)

**Peter Law:** Yr wyf yn deall bod Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi newid caniatâd Dŵr Cymru i arllwyso elifiant carthion i'r dŵr ar arfordir Penmaen-mawr. Yn sgîl yr addasiadau mae'n ofynnol i'r cwmni ddarparu gwaith carthion newydd a phibell arllwysfa newydd erbyn 1 Ebrill 2001. Mae'r archwiliadau a wnaethpwyd gan yr Asiantaeth hefyd wedi dynodi y gallai elifiant mewn cyrsiau dŵr lleol gael effaith anwydol ar y dyfroedd nofio. Bydd yr Asiantaeth yn gweithio gyda Dŵr Cymru a'r awdurdod lleol i ddynodi achos y llygredd hwn a sicrhau y cymerir camau priodol i adfer y sefyllfa.

**Archwilio Cynigion Grant Trafnidiaeth 2000-2001**

**C25 Jane Davidson:** A wnaiff Peter law ddynodi'r broses ar gyfer archwilio'r cynigion a gaiff eu cyflwyno o dan gynigion grant trafnidiaeth 2000-01? (OAQ1387VB)

**Peter Law:** Byddaf yn ymgynghori â Phwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol ar 20 Hydref ynghylch sut yr eir ati i werthuso a blaenoriaethu ceisiadau. Bydd y papur Pwyllgor ar gael ar fewnrwyd a safleoedd gwe'r Cynulliad. Bydd hyn yn adlewyrchu'r meini prawf a ddisgrifir yn y ddogfen ymgeisio a ddosbarthwyd i'r awdurdodau lleol ar 1 Gorffennaf 1999 – mae copi o hon ar gael yn y Llyfrgell.

Gobeithiaf wneud cyhoeddiad ynghylch y setliad oddeutu dechrau'r flwyddyn.

**Awdurdod Rheilffyrdd Strategol (Dylanwadu ar Aelodaeth)**

**C26 Alison Halford:** Faint o ddylanwad fydd gan y Cynulliad o safbwynt aelodaeth yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol arfaethedig? (OAQ1378VB)

**Peter Law:** Bydd un aelod o Gymru ar yr Awdurdod ac ymgynghorir â mi ynghylch y penodiad hwnnw.

### Cais Menter Cyllid Preifat (Ysgolion Cynradd Sgeti a St Thomas, Abertawe)

**C27 Peter Black:** A wnaiff Peter Law ddatganiad ar y trafodaethau rhwng ei swyddogion a Dinas a Sir Abertawe ar eu cais Menter Cyllid Preifat (PFI) ar gyfer Ysgol Gynradd Sgeti ac Ysgol Gynradd St Thomas? (OAQ1390VB) [R]

**Peter Law:** Nid yw fy swyddogion wedi dechrau trafodaethau gyda Chyngor Dinas a Sir Abertawe hyd yn hyn am eu cais Menter Cyllid Preifat (PFI) am £13.2 miliwn mewn credydau PFI i gefnogi prosiect a fydd yn cwmpasu tair ysgol. Cafodd y swyddogion drafodaethau gyda Chyngor Dinas a Sir Abertawe cyn cyfarfod Grŵp Adolygu Prosiectau Cymru i asesu'r ceisiadau. Ni chefnogwyd y cais gan iddo fethu'r dyddiad cau o bum wythnos.

### Digwyddiadau Llygredd Sylweddol (Ardaloedd Trefol)

**C28 Jenny Randerson:** Yn dilyn yr olew a ollyngwyd yn ddiweddar i Lyn Parc y Rhath, Caerdydd, a fydd Peter Law yn adolygu gweithdrefnau a threfniadau diogelu er mwyn delio â digwyddiadau llygredd sylweddol mewn ardaloedd trefol? (OAQ1405VB)

**Peter Law:** Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru y statws i ymateb i'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau o lygredd yng Nghymru, ac mae ganddi weithdrefnau effeithiol i ddelio â digwyddiadau o'r fath mewn ardaloedd trefol a mannau eraill. Diolch i weithredu di-oed gan bartneriaeth waith rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid a Chyngor Sir Caerdydd, ychydig iawn o niwed a wnaeth y digwyddiad ym Mharc y Rhath. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi cadarnhau bod yr olew wedi ei glirio o'r llyn.

### Polisi Amgylcheddol (Adeilad Newydd y Cynulliad)

**C29 Janet Davies:** Pa wybodaeth sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd mewn perthynas â pholisi amgylcheddol manwl ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad? (OAQ1412VB)

**Peter Law:** Megis dechrau y mae'r broses ddatblygu a chynllunio fanwl ac mae'n rhaid i'r brîff cynllunio terfynol gael ei gymeradwyo. Fodd bynnag, o'r dechrau, mae pob cam o'r brîff wedi ei gwneud yn ofynnol i gynigion ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad sicrhau y bydd yn esiampl o safbwynt polisi amgylcheddol ac y dylai gael ardystiad 'da iawn' dan ddull asesiad amgylcheddol Safleoedd Ymchwilio Adeiladau, sef yr asesiad uchaf o safbwynt perfformiad amgylcheddol.

Rhoddir ystyriaeth arbennig hefyd i amodau eithafol y safle a'r gobaith yw y gellir manteisio ar ynni'r haul a'r gwynt lle bynnag y bo hynny'n ymarferol bosib, megis defnyddio'r tyrau bach i awyru'r Siambr a'r mannau cyhoeddus, ac adlewyrchiad y dŵr i roi lefel o olau naturiol oddi mewn i'r adeilad. Bydd yr asesiad hefyd yn rhoi ystyriaeth i faterion ehangach megis trafnidiaeth, sŵn, defnyddio deunyddiau cynaliadwy, rheoli'r adeilad, ailgylchu ac egwyddorion 'gwyrdd' eraill.

### Lleihau Dibyniaeth ar y Car (Bae Caerdydd)

**C30 Brian Hancock:** Pa fesurau ymarferol sydd gan Peter Law ar y gweill i leihau dibyniaeth ar y car i deithio i Adeilad y Cynulliad ac ardal gyfagos Bae Caerdydd? (OAQ1408VB) ***Tynnwyd yn ôl.***